Menter Bro Dinefwr, Swyddfeydd y Cyngor, Llandeilo, SA19 6HW

Annwyl Gyfaill,

Mai 10 2016

Mae Ras yr Iaith yn ddigwyddiad unigryw sy'n hybu'r iaith Gymraeg, ac yn gwneud hynny mewn ffordd ddifyr a chyffrous. Mae'r ras eleni yn cael ei chynnal yma yn Llanymddyfri a bydd yn ymweld â gwahanol drefi o fewn Sir Caerfyrddin, gan gynnwys Rhydaman, Brynaman a Llandeilo. Bydd y ras yn cychwyn o Faes Parcio Llanymddyfri am 5.15pm ac yn gorffen yn y maes parcio am 5:45pm, ar Orffennaf 8, 2016 a bydd cyfle i blant a phobl o bob oedran i gymryd rhan trwy redeg rhan o'r ras gan basio 'baton yr iaith' yn llythrennol o ardal i ardal.

Rwy'n ysgrifennu atoch, fel cymdeithas/clwb/busnes lleol, ar ran trefnwyr Ras yr Iaith, i ofyn yn garedig am gyfraniad oddi wrthych. Mae'n bwysig hefyd i godi ymwybyddiaeth ymysg trigolion yr ardal fod y Ras yn dod i Llanymddyfri.

Gobeithiwn yn fawr y byddwch fel cymdeithas/clwb/busnes yn gweld eich ffordd yn glir i wneud cyfraniad a'n cynorthwyo ni fel pwyllgor lleol i gyrraedd ein targed.

Rhoddir cydnabyddiaeth i bob noddwr drwy arddangos logo neu enw'r noddwr. Am £50 neu fwy bydd eich enw ar blacard ar y diwrnod a bydd croeso i chi rhedeg, gallwch greu baner liwgar hefyd! Yn anffodus, £50 yw'r isafswm y gallwch gyfrannu, ond mae croeso i fwy nag un mudiad i uno er mwyn cyfrannu. Bydd camerâu S4C yn ffilmio pob cymal o'r ras, ac yn darlledu'n fyw o sawl lleoliad.

Byddwn yn gwerthfawrogi pob cyfraniad a bydd yr arian i gyd yn mynd tuag at gynnal y ras, bydd unrhyw arian sy'n weddill yn cael ei rhannu rhwng mudiadau ac elusennau fel rhan o gynllun grant Ras yr Iaith i hyrwyddo'r iaith.

Mae llawer o waith i'w wneud cyn mis Gorffennaf, ac mae angen rhedwyr, stiwardiaid a noddwyr i wneud y digwyddiad yn llwyddiant – os ydych â diddordeb mewn cymryd rhan neu gefnogi mewn unrhyw ffordd yna cysylltwch â Glyn Jones, Menter Bro Dinefwr ar 01558 825336. Pa ffordd well o ddathlu'r Gymraeg a dangos ein bod ni 'yma o hyd' ?

Diolch am eich amser,

Glyn Jones
Ar ran y trefnwyr

---------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Hoffem gefnogi Ras yr Iaith 2016 trwy:

- Gymryd rhan yn y ras, a noddi'r digwyddia☐ (Siec o £50 yn daladwy i Rhedadeg Cyf.)
- Gyfrannu'n ariannol at y digwyddiad ☐
- Helpu'n ymarferol (stiwardio, gosod arwyddion, ayb☐

Arwyddwyd: ................................................... Ar ran: ...................................................
Cyfeiriad: ................................................................................................................

Ffôn / e-
bost: ..........................................................................................
...........................

Menter Bro Dinefwr, Council Offices, Llandeilo, SA19 6HW

Dear Friend,

May 10 2016

*Ras yr Iaith* (meaning Race for the Language) is an unique event that promotes the Welsh language in a fun and exciting way. The race is being held here in Llandovery and will be visiting a variety of towns within Carmarthenshire, including Ammanford, Brynamman and Llandeilo. The race will start from Llandovery Car Park at 5.15pm and will finish at the Car Park at 5.45pm, on July 8, 2016 with an opportunity for children and adults of all ages to participate through running and passing on the 'language baton' literally from one area to another.

I would like to ask you as a local society/club/business if you could kindly contribute. It's also important to raise awareness of the event locally, and get people involved.

We very much hope that you will consider helping us as a local committee to achieve our target.

Each sponsor is given recognition through advertising of their logo or sponsor's name. For a donation of £50 or more your name will be seen on placards on the day and you'll be invited to run if you wish, you can create a colourful banner to Carry too! Unfortunately £50 is the minimum you can donate, but you are more than welcome to join another organisation and donate together. S4C cameras will be filming every leg of the race and will be broadcasting live from many locations.

Every donation will be gratefully received and the money will go toward organising the race, any money remaining is shared between organisations and charities via the *Ras yr Iaith* grant scheme to promote the language.

There's a lot of work to be done before July, and we need runners, stewards and sponsors to make the event a success – if you're interested in taking part or supporting in any way, please contact Glyn Jones, Menter Bro Dinefwr on 01558 825336. Help us celebrate our language!

Thank you for your time,

Glyn Jones
On behalf of the organisers

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------

We would like to support Ras yr Iaith 2016 through:

- Taking part in the race, and sponsor the eve☐ (Cheque of £50 payable to Rhedadeg Cyf.)
- Contribute financially to the event ☐
- Practical help (stewarding, placing signs, et☐

Signed: ....................................................... On behalf of : .......................................................
Address: ..........................................................................................................................
Phone / e-mail: ...................................................................................................................